

Cynnwys

TGAU CBAC mewn CERDDORIAETH

I'w Addysgu o 2012 I'w Ddyfarnu o 2014

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesiad	2
Rhagarweiniad	3
Cynnwys y Fanyleb	6
Cynllun Asesu	20
Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll	25
Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth	26
Disgrifiadau o'r Graddau	40
Y Cwricwlwm Ehangach	41
Atodiad	42

Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

CERDDORIAETH

CRYNODEB O'R ASESIAD

UNED 1: Perfformio Cerddoriaeth 30% Asesiad dan Reolaeth 120 marc (60 GMU)
Dau berfformiad gwrthgyferbyniol. Un yn unawdol ac un yn aelod o ensemble. <ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r perfformiadau barhau yn hwy na deng munud; Mae'n ofynnol bod un o'r darnau'n gysylltiedig â Maes Astudiaeth yn Uned 3; Wedi'u hasesu gan athro ac wedi'u safoni'n allanol gan safonwr ymweld ym mis Chwefror/Mawrth.
UNED 2: Cyfansoddi Cerddoriaeth 30% Asesiad dan Reolaeth 80 marc (60 GMU)
Dau gyfansoddiad gwrthgyferbyniol. <ul style="list-style-type: none"> Dylai'r ddau gyfansoddiad barhau am gyfanswm o 5 munud o leiaf; Mae'n ofynnol bod y ddau gyfansoddiad yn gysylltiedig â Meysydd Astudiaeth gwahanol yn Uned 3; Ymgeiswyr i gwblhau log cyfansoddi (Uned 2C); Wedi'u hasesu gan athro ac wedi'u safoni'n allanol ym mis Ebrill/Mai.
UNED 3: Gwerthuso Cerddoriaeth 40% Asesiad Allanol 100 marc (80 GMU)
Arholiad Ysgrifenedig (40%): Arholiad gwrando/ysgrifenedig 1½ awr yn seiliedig ar ddyfyniadau cerddorol heb eu paratoi o bob un o'r Meysydd Astudiaeth a gwerthusiad o berfformiad/cyfansoddiad a gyflawnwyd yn ystod y cwrs. Wedi'i asesu'n allanol ym mis Mai/Mehefin.

DARPARIAETH YR ASESU A'R ARDYSTIO

	Cod Cofrestru		Mehefin 2014 a phob blwyddyn wedi hynny
	Pwnc	Opsiwn*	
Uned 1	4411	01 neu W1	✓
Uned 2	4412	01 neu W1	✓
Uned 3	4413	01 neu W1	✓
Dyfarniad Pwnc	4410	LA neu UL	✓

* Codau Opsiwn

Cyfrwng Saesneg 01, Cyfrwng Cymraeg W1 - ar gyfer unedau
Cyfrwng Cymraeg UL, Cyfrwng Saesneg LA - ar gyfer dyfarniad pwnc

Rhif Achredu'r Cymhwyster 500/4517/9

Manyleb linol yw hon: rhaid cymryd pob asesiad ar ddiwedd y cwrs.

CERDDORIAETH

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Rhesymeg

Mae'r fanyleb hon yn meithrin sensitifrwydd cerddorol, creadigrwydd a dirnadaeth glywedol yr ymgeiswyr trwy gaffaeliad gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ac ymarfer y dychymyg. Mae'n hyrwyddo datblygiad diwylliannol y disgyblion, eu gweithgareddau fel perfformwyr, cyfansoddwyr a gwerthuswyr a'r mwynhad sy'n deillio o hynny trwy astudio ystod eang o gerddoriaeth gan gynnwys cerddoriaeth Gymreig.

Mae'r fanyleb hon yn ategu datblygiad personol a chymdeithasol yr ymgeiswyr trwy greu cerddoriaeth gydag eraill.

Caiff TGAU Cerddoriaeth ei hasesu trwy asesiad dan reolaeth ac asesiad allanol. Caiff perfformio a chyfansoddi eu hasesu trwy asesiad dan reolaeth, â gwrando a gwerthuso yn cael eu hasesu trwy asesiad allanol.

Wrth astudio TGAU Cerddoriaeth, bydd ymgeiswyr yn astudio cerddoriaeth o bedwar Maes Astudiaeth gwahanol. Caiff pob maes astudiaeth ei asesu yn yr arholiad gwrando terfynol (AA3). Mae'n rhaid asesu **dau** o'r meysydd astudiaeth hyn yn Uned 2 (AA2) ac **un** maes astudiaeth yn Uned 1 (AA1 – **naill ai'n unawd neu'n ensemble**).

Bydd disgwyl i ymgeiswyr astudio cerddoriaeth mewn ffordd gyfannol ac yn ymgymryd â thasgau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso o fewn y Meysydd Astudiaeth er mwyn gwerthfawrogi'n llawn y modd y bu i'r gerddoriaeth esblygu.

1.2 Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

Dylai dilyn cwrs TGAU Cerddoriaeth annog ymgeiswyr i:

- ymgymryd ag astudiaeth ymarferol o gerddoriaeth er mwyn datblygu'n ddysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyrgar â meddyliau chwilfrydig;
- datblygu diddordebau a sgiliau cerddorol eu hunain gan gynnwys y gallu i greu cerddoriaeth yn unigol ac mewn grwpiau;
- gwerthuso eu cerddoriaeth nhw eu hunain a cherddoriaeth eraill;
- deall a gwerthfawrogi ystod eang o gerddoriaeth o genres gwahanol.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau byw a phriodoleddau ehangach gan gynnwys meddwl yn feirniadol ac yn greadigol, sensitifrwydd esthetig a datblygiad emosiynol a diwylliannol.

1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad oes angen dysgu blaenorol penodol, mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar Raglenni Astudio Cerddoriaeth yng Nghyfnodau Allweddol 1-3.

Gall y fanyleb hon gael ei dilyn gan unrhyw ymgeisydd beth bynnag fo'i gefndir o ran rhyw na'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ymgeiswyr ymestyn eu dysgu gydol oes. Mae'n darparu seiliau addas ar gyfer astudio TAG Cerddoriaeth, amrywiaeth o gyrsgiau cerddoriaeth a thechnoleg cerddoriaeth arbenigol Lefel 2 neu 3, neu fynediad uniongyrchol i'r gweithle. Hefyd, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudiaeth ddealladwy, bodlon a buddiol i'r ymgeiswyr hynny na fyddant yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach

1.4 Cydraddoldeb ac Asesu Teg

Yn aml bydd TGAU yn gofyn am asesu amrediad eang o gymwyseddau. Y rheswm yw eu bod yn gymwysterau cyffredinol ac felly yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiaeth eang o alwedigaethau a chyrsgiau o safon uwch.

Adolygwyd y meini prawf cymhwyster a phwnc TGAU diwygiedig i nodi a oedd unrhyw un o'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan y pwnc yn creu rhwystr posibl i unrhyw ymgeiswyr anabl. Os felly, adolygwyd y sefyllfa eto i sicrhau na fyddai cymwyseddau o'r fath yn cael eu cynnwys ond lle roedd hynny'n hanfodol i'r pwnc. Trafodwyd casgliadau'r broses hon gyda grwpiau'r anabl a phobl anabl gan gynnwys y rhai â nam ar eu clyw.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. Am y rheswm hwn, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd â rhwystr llwyr i unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau, *Rheoliadau ac Arweiniad: Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) (www.icq.org.uk) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr anabledd, efallai bydd ymgeiswyr sydd â nam ar eu clyw yn ei chael yn anodd i arddangos sgiliau dirnadaeth glywedol (AA3). Gellir lliniaru rhywfaint ar y rhwystr posibl hwn drwy ofyn i'r ymgeiswyr arddangos sgiliau dadansoddi sgôr gerddorol er mwyn dangos dirnadaeth glywedol, yn hytrach na gwrando ar y gerddoriaeth, ond ni fyddant yn gallu asesu perfformiad o'r gerddoriaeth.

Ehangwyd meini prawf cerddoriaeth Perfformio (AA1) i fod yn "perfformio/realeiddio". Golyga hyn y gellir lliniaru pethau i'r ymgeiswyr sydd â nam ar eu clyw wrth iddynt baratoi perfformiad gan ddefnyddio seiniau cyfrifiadurol, ond gall fod angen rhywfaint o addasu o hyd yma.

Efallai y bydd ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, yn dal i allu derbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd ar sail y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a byddai'n cael ei nodi ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu ac efallai y caiff ei newid yn y dyfodol.

1.5 Codau Dosbarthu

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pynciol y mae'n perthyn. Y cod dosbarthu ar gyfer y fanyleb hon yw 7010.

Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau.

Gall canolfannau gynghori ymgeiswyr, os byddant yn dilyn dwy fanyleb â'r un cod cofrestru, y bydd ysgolion a cholegau yn debygol iawn o farnu eu bod wedi cyflawni un yn unig o'r ddwy TGAU. Efallai mai'r un farn a lunnir os bydd ymgeiswyr yn dilyn dwy fanyleb TGAU sydd â chodau dosbarthu gwahanol ond sydd â gorgyffwrdd sylweddol o ran cynnwys. Dylai ymgeiswyr sydd ag unrhyw amheuan ynghylch eu cyfuniadau o bynciau gysylltu â'r sefydliad y dymunant symud ymlaen iddo cyn cychwyn ar eu rhaglenni.

2

CYNNWYS

2.1 CYFFREDINOL

Yn y fanyleb hon mae'n ofynnol i ymgeiswyr, trwy berfformio, cyfansoddi a gwerthuso, ddatblygu dirnadaeth glywedol, gwybodaeth a dealltwriaeth gerddorol am:

- y defnydd o elfennau cerddorol, dyfeisiau, cyweireddau ac adeileddau;
- y defnydd o adnoddau, confensiynau, prosesau, technoleg cerddoriaeth a'r nodiant priodol gan gynnwys hen nodiant;
- y dylanwadau cyd-destunol sy'n effeithio ar y modd y mae cerddoriaeth yn cael ei chreu, ei pherfformio a'i chlywed, gan gynnwys effaith y dibenion gwahanol, y defnyddiau, y lleoliadau, yr achlysuron, argaeledd yr adnoddau a'r amgylchedd diwylliannol sydd ohoni.

Yn y fanyleb hon mae'n ofynnol i ymgeiswyr wneud **cysylltiadau** rhwng yr agweddau uchod o wybodaeth a dealltwriaeth gerddorol.

Mae'r ddirnadaeth glywedol, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth gerddorol a ddisgrifir uchod, yn cael ei phennu gan ystod wrthgyferbyniol o **bedwar** maes astudiaeth wedi'u dewis ar draws amser, diwylliant a thraddodiad cerddorol.

Ni ddylid ystyried ar unrhyw gyfrif mai gweithiau gosod yw'r rhestr wrando arwyddol ar gyfer pob maes astudiaeth a welir yn 2.3. Eu bwriad yw gweithredu fel mynegbyst cyfeiriadol ar gyfer athrawon, gan gynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer perfformio, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth.

2.2 Y CYNHWYSION CERDDOROL A-Y

Cyd-destun, Confensiynau, Dyfeisiau, Parhad, Dynameg, Ffuriau, Nodiant, Perfformiad, Cyfnodau, Traw, Prosesau, Ardduliau, Gwead, Ansawdd

Bydd y cynhwysion cerddorol sy'n cael eu rhestru isod yn ategu pob *Maes Astudiaeth*, fodd bynnag nid yw'r rhestr gyfan yn berthnasol i **bob** *Maes Astudiaeth*. Bydd y defnydd priodol a wneir o'r cynhwysion yn cael ei reoli gan y gweithiau, y cyfansoddwyr a'r traddodiadau sydd a wnelo â'r *Maes Astudiaeth* arbennig hwnnw.

ANSAWDD

Llais

- Trebl
- Soprano
- Tenor
- Bas

Corawl (mawr/bychan)

- Lleisiau meibion
- Lleisiau merched
- Lleisiau cymysg
- Lleisiau plant
- A Cappella

Cerddorfa (fawr/fach)

- Offer taro
- Llinynnau
- Pres
- Chwythbrennau
- Telyn
- Electronig
- Syntheseiddiedig
- Sain gyfrifiadurol
- Samplu

Band Pres

Band Chwyth/Cerddorfa

Band Jazz/Cerddorfa (traddodiadol a modern)

ARDDULLIAU

- Argraffiadaeth
- Cyfresiaeth
- Minimaliaeth
- Arbrofol
- Aleatorig
- Poblogaidd (Jazz, roc a phop)
- Cyfuniad

CYD-DESTUN – SUT MAE CERDDORIAETH YN CAEL EI?

Creu

- Bwriad/Comisiwn
- Symbyliadau - gweledol/emosiynol/cerddorol
- Trefniant
- Darn byrfyfyr

Perfformio

- Gofynion technegol
- Gofynion emosiynol
- Dehongliad
- Proffesiynol
- Amatur

Clywed

- Cyfryngau
- Yn fyw
- Wedi'i recordio
- Rhyngrwyd

CYD-DESTUN – ACHLYSUR

- Cyhoeddus
- Cymdeithasol
- Gwladwriaeth
- Preifat
- Seciwlar
- Crefyddol

CYD-DESTUN – LLEOLIAD

- Neuadd Gyngerdd
- Gŵyl Roc
- Ysgol
- Gartref
- Eglwys

CYFNODAU

- Baróc
- Clasurol
- Rhamantaidd

CONFENSIYNAU

- Defnydd o sain offerynnol
- Defnydd o leisiau
- Cyfuniad offerynnol
- Cyfuniad lleisiol
- Defnydd o dechnoleg i gynhyrchu sain
- Disgwyliadau'r gynulleidfa

DYFEISIAU

- Efelychiant
- Dilyniant
- Canon
- Ffiwg
- Ostinato
- Ailadrodd
- Dolen
- Minimaliaeth
- Riff
- Grwndfas
- Drôn
- Pedal
- Obligato
- Byrfyfyr
- Unawd
- Galwad ac atebiad
- Cadenza

DYNAMEG

Graddoli'r sain

- Termau o'r tawel iawn i'r uchel iawn
- Arwyddion/symbolau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd

Acenion

- Subito
- Sforzando

FFURFIAU

- Dwyran
- Teiran
- Stroffig
- Cyfansoddiad di-dor
- Cylchol
- Ritornello
- Rondo
- Thema ac amrywiadau
- Pennill a chytgan
- Melangan
- Rhagarweiniad
- Datblygiad
- Coda
- Wythbar canol
- Pont
- Dolen

GWEAD

Unawd

- Monoffonig
- Unsain
- Offerynnol
- Cyfalaw
- Lleisiol
- Desgant

Harmoni

- Homoffonig
- Polyffonig
- Gwrthbwyntiol
- Tŵn gron

Cyfeiliant

- Piano
- Telyn
- Gitâr
- Offerynnau gwerin
- Allweddellau
- Traciau cyfeiliant
- 2/3/4 rhan
- Tutti cerddorfaol

Cydbwysedd a Dwysedd

- Sain bur
- Sain a fwyhawyd

NODIANT

Hen-nodiant

- Allwedd y trebl/Cleff y trebl
- Allwedd y bas/Cleff y bas
- Hapnodau
- Nodiant rhythm
- Seibiau
- Arwyddion cywair i fyny at 4 llonnod a meddalnod
- Arwyddion amser (syml-dyblyg/triphlyg/pedwarplyg; cyfansawdd-dyblyg)
- Arwyddion a symbolau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd
- Arwyddion metronom

Graffeg

- Seiniau a ddynodir gan nodiant graffig

PARHAD

Curiad

- Rheolaidd
- Afreolaidd

Mesur

- Amseriad syml (dyblyg, triphlyg, pedwarplyg)
- Amseriad cyfansawdd (dyblyg)

Rhythm

- Gwerth nodau
- Rhythmau dot
- Trawsacen
- Acenion

Cyflymder/Tempo

- Termau cyflymder o'r araf iawn i'r cyflym iawn

Distawrwydd/Seibiau

PERFFORMIAD

- Brawddegu
- Ynganiad
- Addurniad
- Rubato
- Termau yn ymwneud ag offerynnau unigol sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd
- Aleatorig

PROSESAU

*Deall trwy gyfrwng dirnadaeth glywedol **sut** mae cerddoriaeth, mewn ymateb i dasg benodol, yn cael ei*

- Creu
- Perfformio/byrfyfyrio
- Dehongli
- Derbyn – yn fyw, wedi'i recordio
- Dylanwadu gan dechnoleg

TRAW

Siâp melodig

- Fesul cam
- Fesul naid

Cyfyngau melodig a harmonig

- Cyfyngau diatonig i fyny at yr wythfed
- Nodau arpeggio/cordiau gwasgar

Graddfeydd

- Mwyaf
- Lleiaf
- Pentatonig
- Melangan

Moddau

- Mwyaf
- Lleiaf
- Doriaidd
- Aeolaidd

Cyweiredd

- Mwyaf
- Lleiaf
- Moddol
- Digywair
- Deugywair

Harmoni

- Cordiau sylfaen
- Cordiau eilradd
- Cordiau'r seithfed
- Cytgord
- Anghytgord
- Clystyrau
- Symbolau cordiau
- Diweddebau-perffaith, amherffaith, amen, annisgwyl
- Trawsgyweirio

2.3 MEYSYDD ASTUDIAETH

2.3.1 Maes Astudiaeth 1 – Cerddoriaeth yng Nghymru

Rhesymeg

Mae cerddoriaeth Cymru yn derbyn cydnabyddiaeth haeddiannol y byd cerdd rhyngwladol. Gwlad sy'n ymfalchio yn ei cherddoriaeth yw Cymru lle mae perfformwyr a chyfansoddwyr o safon Bryn Terfel, Catrin Finch, Y Super Furry Animals a Karl Jenkins eisoes wedi cyrraedd y brig.

Brodwaith cyfoethog y canu gwerin a'r baledi fu'n sail ac yn symbyliad i ddatblygiad ac esblygiad cerddorol cyffrous y Gymru gyfoes. Cawn gyfle i olrhain y dylanwadau a'r cyfuniadau sy'n cynnal ac yn peri newid.

Bydd y maes astudiaeth hwn yn cynnwys cysylltiadau â cherddoriaeth werin ac offerynnau o'r gwledydd Celtaidd eraill.

A. Caneuon Cymreig – Celf, Gwerin, Cerdd Dant a Phop

Cynnwys Cerddorol Penodol

Trwy astudio amrywiaeth o ganeuon Cymreig bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth am:

- lliwio geiriau a dehongli;
- mynegiant;
- naws wrthgyferbyniol;
- effaith technoleg.

Hefyd, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddeall y prosesau sydd ynghlwm wrth gyfansoddi cân a gosod Cerdd Dant. Dylid rhoi ystyriaeth wrth ddefnyddio'r elfennau canlynol er mwyn cyfleu'r nodweddion uchod:

- adeiledd, e.e. stroffig, cyfansoddi di-dor;
- dyfeisiau, e.e. dilyniant, ostinato, obligato;
- cyweiredd, e.e. mwyaf/lleiaf/moddol;
- cyfeiliant, e.e. gitâr, cainc y delyn, traciau cyfeiliant.

Dylanwadau Cyd-destunol

Bydd y rhaniadau diwylliannol yng Nghymru yn ddylanwad pwysig ar gyfansoddwyr a gwrandawyr.

- Bydd y **gân gelf** yng nghyd-destun yr Eisteddfodau a'r neuadd gyngerdd.
- Gosodir y **gân werin** fodern, â'i gwreiddiau yn ffeiriau a thafarnau Cymru, yng nghyd-destun y digwyddiadau esoterig gwerinol sy'n blodeuo yng Nghymru, e.e. Sesiwn Fawr, Dolgellau lle y rhoddir y prif sylw i Gerddoriaeth Geltaidd a lle mae effaith technoleg ar gynnydd.

- Gosodir y grefft **cerdd dant** o lunio cyfalaw leisiol i gainc telyn yng nghyd-destun yr Ŵyl Gerdd Dant flynyddol ac eisteddfodau eraill e.e. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- Gosodir twf y **gân bop** o dan ddylanwad grwpiau fel Radio Luxembourg a Geraint Jarman yng nghyd-destun lleoliadau awyr agored megis Wembley, Caerdydd a Glastonbury lle na all y perfformwyr na'r gynulleidfa anwybyddu effaith technoleg.

Gwrando Arwyddol

- *San Gofan*: Morgan Lloyd
- *Gweddi Pechadur*: Morfudd Llwyn Owen
- *Moliannwn*: Meibion Llywarch
- *Côr Seiriol*
- Aled Lloyd Davies
- *Mr Pinc*: Daniel Lloyd
- Geraint Jarman
- Super Furies

B. Cerddoriaeth Offerynnol Gymreig

Cynnwys Cerddorol Penodol

Trwy astudio cerddoriaeth offerynnol Gymreig bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth am:

- Cerddoriaeth Werin Gymreig;
- Cerddoriaeth i'r Delyn;
- Bandiau Pres;
- Cerddoriaeth Gerddorfaol Gymreig.

Dylanwadau Cyd-destunol

Bröydd diwydiannol Cymraeg yn ystod cyfnod dirwasgiad enbyd economaidd y 1930au a gychwynnodd nifer fawr o weithgareddau cerddorol clodwiw. Ymysg y gweithgareddau hyn bu'r bandiau pres, y cerddorfeydd symffonig a'r cymdeithasau operatig amatur, yn fodd i godi calonnau egwan y werin uwchlaw'r pydew gymdeithasol a amgylchynodd Cymru.

Gwrando Arwyddol

- *Sonata for Harp*: John Thomas
- *Harp Concerto*: William Mathias
- *A Snowdon Overture*: Gareth Glyn
- *Fantasia on Welsh Nursery Tunes*: Grace Williams
- *Sosban Fach*: Band Pres Parc a Dare

C. CYSYLLTIADAU CELTAIDD

Cynnwys Cerddorol Penodol

Trwy astudio cerddoriaeth Geltaidd bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth am y modd y mae elfennau o Gerddoriaeth Werin Gymreig yn debyg ac yn wahanol i'r hyn a geir mewn ardaloedd Celtaidd eraill, megis Yr Alban, Ynys Manaw, Llydaw, Galisia, Cernyw ac Iwerddon.

Gwrando Arwyddol

- Ar Log (Cymru)
- Robin Huw Bowen (Cymru)
- *Loch Lomond*: Runrig (Yr Alban)
- King Chialiee (Ynys Manaw)
- Carre Manchot (Llydaw)
- Milladoiro (Galisia)
- Dalla (Cernyw)
- *River Dance*: Bill Whelan (Iwerddon)

2.3.2 Maes Astudiaeth 2 – Cerddoriaeth i'r Llwyfan a'r Sgrin

Rhesymeg

Ers dyfodiad y ffilm sain gyntaf *The Jazz Singer* yn 1927, mae cyfansoddwyr y gerddoriaeth wedi tyfu'n rhan annatod o'r diwydiant ffilmiau. Yn yr un modd hefyd daethant yn rhan annatod o fyd cyfoes teledu a fideo.

Bu Opera a Bale erioed yn faes ffrwythlon a chreadigol sy'n rhoi cyfle am ddelweddaeth ac am symboliaeth wrth gyfansoddi. Mae'r berthynas rhwng y llwyfan, y sgrin a'r gerddoriaeth yn symbiotig.

Bydd y maes astudiaeth hwn yn ymwneud â cherddoriaeth a gyfansoddwyd ar gyfer Opera, Bale, Sioeau Cerdd, Ffilm a Theledu.

Cynnwys Cerddorol Penodol

Trwy astudio dyfyniadau o sioeau cerdd a ffilmiau bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth am y modd y:

- mae cymeriadau yn cael eu portreadu trwy ddefnyddio cynhwysion cerddorol addas;
- mae amser a lleoliad yn cael eu trosglwyddo;
- mae naws a sefyllfaoedd yn cael eu creu gan ddefnyddio'r cyweiredd priodol;
- mae'r geiriau/stori yn cael eu dehongli;
- mae ansawdd cerddorfaol a lleisiol yn cael eu defnyddio;
- mae dyfeisiau cerddorol yn cael eu defnyddio i gryfhau'r effaith ddramatig.

Dylanwadau Cyd-destunol

Dylid ystyried astudiaeth o sioeau cerdd a ffilmiau gan gyfeirio at:

- cyfnod, lleoliad ac amser;
- cyfuniad o ddrama a cherddoriaeth;
- galwadau pro/am ar y perfformwyr;
- lleoliad a disgwyliadau'r gynulleidfa;
- effaith technoleg ar y modd y crëwyd, y perfformiwyd ac y gwrandawyd ar y gerddoriaeth.

Gwrando Arwyddol

A) OPERA

- *Nessun Dorma* o *Turandot*: Puccini
- *Queen of the night Aria* o *The Magic Flute*: Mozart
- *Chorus of Slaves* o *Nabucco*: Verdi

B) BALE

- *Swan Lake*: Tchaikovsky
- *Romeo and Juliet*: Prokofiev
- *Rite of Spring*: Stravinsky

C) SIOEAU CERDD

- *Hairspray*: Shaiman
- *Wicked*: Schwarz
- *Pum diwrnod o ryddid*: Gittins

CH) FFILM A THELEDU

- *ET*: Williams
- *Superman*: Williams
- *Harry Potter*: Williams
- *633 Squadron*: Goodwin
- *Dr Who*: Grainger
- *Vicar of Dibley*: Goodall
- *Inspector Morse*: Pheloung

2.3.3 Maes Astudiaeth 3 – Esblygiad Cerddoriaeth

Rhesymeg

Mae patrymluniau cerddoriaeth fodern, trwy ddiffiniad, yn gofyn am hyblygrwydd. Mae ambell i fenter gerddorol yn ymddangos dros nos ac yn tyfu'n boblogaidd, tra bo eraill yn diflannu'n gyflym ac yn cael eu bwrw o'r neilltu.

Mae proses esblygu cerddoriaeth wedi defnyddio technegau llwyddiannus yr 'iaethau' ynghyd â'r chwyldroad technolegol. Mae gwaith cynharach arloesol cerddorol John Cage, Arnold Schoenberg, Karl Stockhausen a Miles Davies bellach yn perthyn i'r ganrif ddiwethaf. Aros y mae'r byd cerdd am ddatblygiadau ôl fodern.

Bydd y maes astudiaeth hwn yn cydnabod y cyfansoddwyr hynny a fu'n rhagflaenu'n cyfnod ôl-fodern ninnau, ac yn canolbwyntio ar:

- Argraffiadaeth
- Cyfresiaeth
- Minimaliaeth
- Cerddoriaeth arbrofol
- Cerddoriaeth aleatorig
- Cerddoriaeth boblogaidd (jazz, roc a'r felangan)
- Cyfuniad

Yn ogystal, daw effaith technoleg â'i syntheseisyddion a'r seiniau sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfrifiadur yn bwysicach fyth yn ein hysgolion, yn enwedig yn yr elfennau cyfansoddi a pherfformio.

Cynnwys Cerddorol Penodol

Trwy astudio cerddoriaeth fodern bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth am y broses o arbrofi, a'r modd y:

- addaswyd y seiniau gwreiddiol;
- defnyddir sain offerynnol;
- defnyddir seiniau lleisiol;
- cyfunir offerynnau;
- cyfunir lleisiau;
- cynhyrchir seiniau cyfrifiadurol;
- defnyddir meddalwedd a samplau;
- defnyddir cyweireddau a harmonïau.

Dylanwadau Cyd-destunol

Gosodir astudiaeth o **Esblygiad Cerddoriaeth** yng nghyd-destun:

- y broses greadigol;
- y broses recordio;
- gofynion technegol y gerddoriaeth;
- ymateb y gynulleidfa;
- arbrofion cyfredol â seiniau.

Gwrando Arwyddol

- *La Mère*: Debussy
- *In C*: Terry Riley
- *Violin Concerto*: Berg
- *Kinderstuck*: Webern
- *Threnody to the victims of Hiroshima*: Penderecki
- *Sequenza III for Female Voice*: Berio
- *Basin Street Blues*
- *Take the A Train*: Strayhorn
- *I'm Leaving You*: Howlin' Wolf
- *Milestones*: Miles Davies
- Led Zeppelin
- Genod Droog
- William Orbit

Cyfuniad o'r Clasurool a Jazz/Roc

Mae'r cyfuniad o arddulliau clasurool a Jazz/Roc wedi cydio yn nychymyg grwpiau ac unigolion megis Deep Purple, Metallica a'r dehonglwr byrfyfyr enwog hwnnw o waith Bach, Jacques Loussier. Mae traciau dawns cyfrifiadurol sy'n seiliedig ar gerddoriaeth glasurol draddodiadol hefyd yn ennill eu poblogrwydd yn y clybiau dawns cyfoes.

Dylanwadau Cyd-destunol

Gosodir astudiaeth o gyfuniad yng nghyd-destun:

- pwrpas y cyfansoddiad;
- gofynion technegol y cyfansoddiad;
- trefniannau cyfoes;
- esblygiad cerddoriaeth ar draws amser;
- effaith technoleg ar y modd yr ail-grëwyd, y perfformwyd ac y gwrandawyd ar y gerddoriaeth

Gwrando Arwyddol

- Metallica a'r SFO
- Dr Jazz
- Deep Purple a'r LSO
- Jacques Loussier
- *All By Myself*. Eric Carmen

2.3.4 Maes Astudiaeth 4 – Ffurfiâu a Dyfeisiau Cerddorol

Rhesymeg

Bu ffurfiâu a dyfeisiau yn asgwrn cefn i Draddodiad Clasurol y Gorllewin am fwy na 600 o flynyddoedd. Mae'n nhw'n rhan hanfodol o'r broses gyfansoddi, ac wedi cael eu datblygu a'u mireinio ar hyd y canrifoedd o ran y cyfansoddiadau lleisiol ac offerynnol.

Mae'r arddulliau a'r genres sy'n deillio o hynny yn darparu symbyliad i berfformio, cyfansoddi a gwerthuso sgiliau, gan gwmpasu cerddoriaeth absoliwt a thestunol. Nid yw hwn yn faes astudiaeth sy'n bodoli ar ei ben ei hun ond yn cyffwrdd â phob un o'r meysydd astudiaeth eraill.

Dylanwadau Cyd-destunol

Trwy astudio amrywiaeth o gyfansoddiadau lleisiol ac offerynnol bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth am:

A. Traddodiad Clasurol y Gorllewin

AGWEDDAU AR FFURFIAU	DYFEISIAU CERDDOROL
Ffiwg	Efelychiant
Dwyran	Dilyniant
Teiran	Canon
Stroffig	Ostinato
Cyfansoddiad di-dor	Pedal
Cylchol	Cadenza
Ritornello	
Rondo	
Thema ac amrywiadau	
Rhagarweiniad	
Datblygiad	
Pont	
Coda	

B. Cerddoriaeth Boblogaidd (Jazz, Roc a'r Felangan)

AGWEDDAU AR FFURFIAU	DYFEISIAU CERDDOROL
ABA Wythbar canol Pennill Cytgan Pont Dolen Rhagarweiniad Coda	Efelychiant Dilyniant Riff Unawd byrfyfyr Galwad ac atebiad

Gwrando Arwyddol

Traddodiad Clasurol y Gorllewin

- *Brandenburg Concerto No 4. Movt 1* : J.S. Bach (Ritornello)
- *Mass in C*: Beethoven (Ffiwg)
- *Horn Concerto Four Movt III*: Mozart (Rondo)
- *Emperor String Quartet Movt II*: Haydn (Thema ac Amrywiad)

Jazz/Roc

- *Hard Day's Night*: Beatles
- *I'll Be Watching You*: The Police (pennill, cytgan, wythbar canol)

3

ASESU

3.1 Cynllun Aseu

Mae'r aseu ar gyfer TGAU Cerddoriaeth yn ddi-haen, h.y. mae pob cydran/uned yn darparu ar gyfer yr ystod lawn o allu ac yn caniatáu cyrraedd graddau A* - G ar gyfer y dyfarniad pwnc.

Bydd y cynllun aseu yn cynnwys:

3.1.1 UNED 1 – Perfformio (Aseiad dan Reolaeth)

Mae'r gydran hon yn aseu AA1 (Perfformio).

- (i) Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd greu perfformiad unawdol lleisiol/offerynnol â chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant neu sylweddiad technolegol. Gall ymgeiswyr **naill ai** ganu **neu** chwarae ar un offeryn yn unig. Ni ddylai perfformiadau barhau yn hwy na **5 munud**.
- (ii) Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd berfformio rhan unawdol **arwyddocaol** heb ei dyblu, fel aelod o ensemble, â chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant, ond **heb** arweinydd. Rhaid i'r ensemble gynnwys o leiaf **dri** pherfformiwr. Gellir defnyddio tâp cyfeiliant parod yn lle **un** o'r chwaraewyr. Mae deuawd **bona fide** yn dderbyniol, e.e. deuawd fflwiwt/cyfeiliant lieder ac ati. Yn yr achos hwn, rhaid i'r ddau chwaraewr fod yn bresennol. Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble dylid cysylltu â CBAC.

Nid yw'n ofynnol i aelodau eraill yr ensemble sefyll yr arholiad.

Ni ddylai perfformiadau barhau yn hwy na **5 munud**.

Mae'n rhaid bod un o'r darnau sy'n cael ei berfformio yn gysylltiedig ag un o'r Meysydd Astudiaeth yn Uned 3. Gall ymgeiswyr berfformio eu cyfansoddiadau eu hunain.

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos:

- rheolaeth dechnegol;
- defnydd o dechnoleg cerddorol lle bo'n addas;
- mynegiant a dehongliad pwrpasol;
- glendid a chywirdeb rhythm a thraw;
- defnydd o gyflymder priodol (tempi);
- defnydd effeithiol o ddynameg;
- rhwyddineb mewn perfformiad;
- cydbwysedd sensitif wrth frawddeg;
- ymwybyddiaeth o arddull;
- empathi (mewn chwarae ensemble).

Bydd marc yr ymgeisydd yn cael ei luosi gan un o'r rhifau canlynol yn ôl graddfa anhawster y gerddoriaeth fel yr amlinellir yn y tabl isod:

2	Darn gweddol syml ei safon mewn cywair hawdd, yn arddangos rhythmau syml ac ystod traw gyfyngedig. Bydd y disgwyliadau oddi wrth y perfformiwr yn rhai cymedrol.
2.5	Darn cymedrol ei safon yn gofyn am sgiliau technegol digonol gan y perfformiwr ac ychydig o ddehurwydd ymarferol neu leisiol. Bydd y rhythmau a'r traw yn fwy cymhleth.
3	Darn mwy heriol ei safon yn arddangos rhythmau mwy cymhleth a gofynion technegol sydd ag amrywiaeth ehangach o ddeunydd thematig yn perthyn iddo. Rhydd y darn a ddewisir gyfle am fwy o bwyslais ar ddehongli.

Engbreiffiau o berfformiadau a chysylltiadau â Meysydd Astudiaeth

Mae'n rhaid bod **un** perfformiad yn gysylltiedig â maes astudiaeth. Mae'n rhaid i'r darn a ddewiswyd gysylltu ag agweddau o'r cynnwys cerddorol penodol yn y maes astudiaeth h.y. nid â theitl y maes astudiaeth yn unig.

Mae *unawd* o Les Miserables yn gysylltiedig â Maes Astudiaeth 2: Cerddoriaeth i'r Llwyfan a'r Sgrin.

Mae *ensemble* roc yn gysylltiedig â Maes Astudiaeth 3: Esblygiad Cerddoriaeth.

3.1.2 UNED 2 – Cyfansoddi (Asesiad dan Reolaeth)

Mae'r gydran hon yn asesu AA2 (Cyfansoddi).

- (i) Gydol y cwrs mae'n ofynnol i bob ymgeisydd greu a datblygu syniadau cerddorol mewn perthynas â thasgau penodedig neu ddewisiedig. Nid oes unrhyw gyfyngu ar y genre, y cyfrwng na'r elfennau a ddefnyddir.
- (ii) Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno **2** ddarn gwrthgyferbyniol sy'n para am o leiaf **5 munud**. Mae'n rhaid i'r ddau gyfansoddiad wneud cysylltiadau â Meysydd Astudiaeth **gwahanol** yn Uned 3.
- (i) Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau log cyfansoddi (UNED 2C) ar gyfer **pob** cyfansoddiad, wedi'i wrth-lofnodi gan yr athro/athrawes.

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos:

- Amrywiaeth: rhythm, cyflymder, traw, melodi, harmoni, gwead, dynameg ac ansawdd. Mewn gweithiau arbrofol gellir eu cyfnewid â dwysedd, parhad, arlliw a lleoliad.
- Undod: cysondeb arddull.
- Cydbwysedd: rheolaeth ar amrywiaeth ac undod o fewn pob cyfansoddiad.
- Ffurf: siâp, cynllun a threfn syniadau.
- Cyfrwng: gwybodaeth dechnegol a rheolaeth ar y cyfrwng a ddefnyddir.
- Technoleg: defnydd o dechnoleg/samplu cerddorol ac ati lle y bo'n briodol.

Engbreiffiau o gyfansoddiadau a chysylltiadau â Meysydd Astudiaeth

Mae *cerddoriaeth offerynnol achlysurol* ar gyfer cynhyrchiad theatrig yn gysylltiedig â Maes Astudiaeth 2: Cerddoriaeth i'r Llwyfan a'r Sgrin.

Mae *Trefniant o alaw werin draddodiadol* yn yr idiom fodern yn gysylltiedig â Maes Astudiaeth 1: Cerddoriaeth yng Nghymru.

Mae'n rhaid bod y ddau gyfansoddiad sy'n cael eu cyflwyno yn gysylltiedig â meysydd astudiaeth **gwahanol**. Mae'n rhaid i'r cyfansoddiadau gysylltu ag agweddau o'r cynnwys cerddorol penodol yn y maes astudiaeth h.y. nid â theitl y maes astudiaeth yn unig.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr nodi'r cysylltiadau rhwng y **ddau** gyfansoddiad penodedig a'r gwahanol feysydd astudiaeth ar y ffurflen UNED 2C, wedi'i dilysu gan yr athro/athrawes.

Gweinyddu

Rhaid cyflwyno'r cyfansoddiadau wedi'u recordio ar ddisg bychan, crynoddig VHS, DVD neu dâp sain, gyda naill ai sgôr wedi'i nodiannu (taflen nodiant/arweiniad/cynllun/cordiau/braslun alaw ac yn y blaen) neu ddisgrifiad ysgrifenedig o'r broses gyfansoddi.

Hefyd, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gynnwys log cyfansoddi (UNED 2C) yn amlinellu'r cysylltiadau â'r meysydd astudiaeth a dilyn hynt y gwaith sy'n cael ei fonitro a'i lofnodi o leiaf deirgwaith gan yr athro/athrawes.

3.1.3 Uned 3: Gwerthuso (Aseiad Allanol)

Mae'r gydran hon yn asesu AA3 (Sgiliau Gwranddo a Gwerthuso).

ARHOLIAD YSGRIFENEDIG

- (i) Bydd yr arholiad, sy'n cynnwys un papur, yn para am ryw **1½ awr** ac yn cael ei gynnal ym mis Mai/Mehefin.
- (ii) Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ddadansoddi a gwerthuso cerddoriaeth a gwneud penderfyniadau beirniadol gan ddefnyddio terminoleg gerddorol.
- (iii) Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd adnabod a chymharu nodweddion arbennig cerddoriaeth o amrywiaeth o arddulliau a thraddodiadau, a'u cysylltu â chyd-destun cyfansoddi'r gerddoriaeth.

- (iv) Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd nodi effaith a deall datblygiad Technoleg ar gerddoriaeth.
- (v) Bydd arholiad gwerthuso terfynol yn cael ei osod a fydd yn cynnwys dyfyniadau heb eu paratoi ar gryno ddisg o'r **pedwar** maes astudiaeth – asesir yr arholiad yn allanol.
- (vi) Bydd yr arholiad gwerthuso hefyd yn cynnwys un cwestiwn gwerthuso ar naill ai perfformiad neu gyfansoddiad a gyflwynwyd yn ystod y cwrs. Bydd disgwyl i ymgeiswyr asesu eu gwaith yng nghyd-destun yr elfennau cerddorol, gan ganolbwyntio ar gryfderau a meysydd i'w datblygu. Bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu yn y cwestiwn hwn.

3.2 Amcanion Asesu

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos eu gallu i:

AA1 – Sgiliau Perfformio	Perfformio/sylweddu â rheolaeth dechnegol, mynegiant a dehongliad.
AA2 – Sgiliau Cyfansoddi	Creu a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth dechnegol a threfnus.
AA3 – Sgiliau Gwerthuso	Dadansoddi a gwerthuso cerddoriaeth gan ddefnyddio terminoleg gerddorol.

Mae pwysiad yr amcanion asesu ar draws cydrannau'r arholiad fel a ganlyn:

Cydran	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Aseiad dan Reolaeth Perfformio	30%			30%
Aseiad dan Reolaeth Cyfansoddi		30%		30%
Aseiad Allanol Gwerthuso			40%	40%
Cyfanswm	30%	30%	40%	100%

3.3 Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig

Ar gyfer cwestiwn olaf y papur ysgrifenedig sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig, bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig o fewn yr asesiad cyfan o'r gydran honno.

Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer y cydrannau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu'r cyfathrebu ysgrifenedig:

- darllenadwyaeth y testun; cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dewis ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i bwrpas a chymhlethdod y deunydd pwnc;
- trefnu gwybodaeth yn glir ac yn drefnus; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo hynny'n briodol.

4

DYFARNU, ADRODD AC AILSEFYLL

Caiff cymwysterau TGAU eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A* i G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd cyrhaeddiad disgyblion na fyddant yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i gael gradd yn cael ei gofnodi â'r llythyren U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Manyleb linol yw hon y mae'n rhaid cymryd pob asesiad ynddi ar ddiwedd y cwrs. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr gwblhau'r asesiad dan reolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs. Rhaid gwneud cydrannau allanol eto os yw ymgeiswyr yn dymuno ailsefyll. Gellir ailsefyll y gydran asesiad dan reolaeth hefyd yn ôl canllawiau a roddir yn 'Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth'. Fel arall, gellir trosglwyddo'r marc GMU am y gydran hon i'w agregu gyda'r cydrannau allanol pan fyddant yn cael eu hailsefyll.

Mae canlyniadau unedau unigol yn cael eu hadrodd ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

GRADD	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
UNED 1	60	54	48	42	36	30	24	18	12
UNED 2	60	54	48	42	36	30	24	18	12
UNED 3	80	72	64	56	48	40	32	24	16
CYMHWYSTER	200	180	160	140	120	100	80	60	40

5

GWEINYDDU'R ASESIAD DAN REOLAETH

Mae manyleb TGAU CBAC Cerddoriaeth yn cwrdd â'r holl reoliadau ar gyfer asesiad dan reolaeth fel a bennwyd gan yr awdurdodau rheoleiddio.

5.1 RHESYMEG YR ASESIAD DAN REOLAETH

Cydran orfodol o TGAU Cerddoriaeth yw'r asesiad dan reolaeth. Yr asesiad mewnol sy'n cyflenwi'r arholiad allanol drwy gynnig dull clir o asesu. Mae'n bwysig am sawl reswm.

Mae'n galluogi ymgeiswyr i:

- gyflawni gwaith creadigol yn eu hamser eu hunain;
- adolygu a mireinio'u gwaith;
- ymchwilio, gan wrando'n helaethach a gwerthuso cerddoriaeth eraill;
- ymgymryd â phenderfyniadau pwysig a datrys problemau.

5.2 LEFELAU REOLAETH

Mae rheoliad asesiad dan reolaeth TGAU Cerddoriaeth yn cael ei ddosrannu i dri cham:

- gosod y dasg
- gwneud y dasg
- marcio'r dasg

Ar gyfer pob cam, mae'r awdurdodau rheoleiddio wedi pennu lefel benodol o reolaeth i sicrhau bod yr amodau ar gyfer gosod, gwneud a marcio'r tasgau yn gadarn ac yn gyson rhwng canolfannau a'r Cyrff Dyfarnu. Bydd y rheolaethau hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn ddilys, yn ddibynadwy ac wedi'i dilysu â graddau uchel o hyder.

5.3 Uned 1: Perfformio

Mae'r dasg asesiad dan reolaeth yn werth 30% o'r holl farciau sydd ar gael ar gyfer y fanyleb hon.

Mae'r dasg yn asesu AA1: Perfformio/sylweddu â rheolaeth dechnegol, mynegiant a dehongliad.

GOSOD Y DASG

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd greu perfformiad unawdol lleisiol/offerynnol â chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant neu sylweddiad technolegol. Gall ymgeiswyr **naill ai** ganu **neu** chwarae ar un offeryn yn unig. Ni ddylai perfformiadau barhau yn hwy na **5 munud**.

Hefyd mae'n ofynnol i bob ymgeisydd berfformio rhan unawdol arwyddocaol heb ei dyblu, fel aelod o ensemble, â chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant, ond **heb** arweinydd. Rhaid i'r ensemble gynnwys o leiaf **dri** pherfformiwr. Gellir defnyddio tâp cyfeiliant parod yn lle **un** o'r chwaraewyr. Mae deuawd **bona fide** yn dderbyniol, e.e. deuawd fflwiwt/cyfeiliant lieder ac ati. Yn yr achos hwn, rhaid i'r ddau chwaraewr fod yn bresennol. Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble dylid cysylltu â CBAC. Nid yw'n ofynnol i aelodau eraill yr ensemble sefyll yr arholiad.

Mae'n rhaid bod **un** o'r darnau sy'n cael ei berfformio yn gysylltiedig ag **un** o'r Meysydd Astudiaeth yn Uned 3. Hefyd gall ymgeiswyr berfformio eu cyfansoddiadau eu hunain.

GWNEUD Y DASG

- Rheoli dilysrwydd
Gall ymgeiswyr gyflawni gwaith ymchwil a pharatoi ar gyfer eu tasgau perfformio y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond rhaid iddynt ddangos y gwaith sydd ar y gweill i'r athro/awes o leiaf unwaith yn ystod cyfnod yr asesiad dan reolaeth
- Rheoli adborth
Rhaid i'r athro/athrawes glywed y gwaith sydd ar y gweill, **yn ffurfiol** ar gyfer pob darn o leiaf **unwaith** ac heb fod yn fwy na **phum** gwaith yn ystod y broses. Gall athrawon gynnig gwelliannau i'r ymgeiswyr ynglŷn â chywirdeb a dehongliad y darnau a ddewiswyd.
- Rheoli amser
Nid oes amser penodol wedi'i nodi ar gyfer pob tasg perfformio, oherwydd mae'n bosib y bydd ymgeisydd am berfformio darn a ddysgwyd rai blynyddoedd ynghynt. Bydd rheoli'r amser yn dibynnu ar anghenion unigol yr ymgeisydd. Ni ddylai perfformiadau barhau yn hwy na **10 munud**.
- Rheoli cydweithredu
Gall gwaith yr unigolyn elwa drwy gydweithio ag eraill megis mewn chwarae ensemble, er mai gwaith yr unigolyn bydd yn cael ei asesu.
- Rheoli adnoddau
Argaeledd yr adnoddau yn y ganolfan fydd yn penderfynu'r hyn y gall yr ymgeiswyr ddod o hyd iddynt, a gall gynnwys defnyddio'r rhyngwrwyd, llyfrau, recordiadau, offerynnau cerddorol, offer sain, ac ati.

MARCIO'R DASG

Gellir diffinio marcio'r dasg fel bod â lefel ganolig o reolaeth.

- Mae athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio sydd ar y dudalen nesaf.
- Mae'r corff dyfarnu yn safoni'r marciau yn allanol gan ddefnyddio sampl yn ôl trefn restrol sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon ar asesiad mewnol Uned 1

Caiff ymgeiswyr eu profi ar:

- (a) **Canu neu chwarae rhan neu ddarn unawdol neu sylweddol technolegol**
- (b) **Perfformio/sylwedu mewn ensemble**

1. Canu neu chwarae rhan neu ddarn unawdol

Bydd y meini prawf a'r dull asesu yn ystyried safon y perfformiad yn ogystal ag anhawster y gerddoriaeth a'r cysylltiad â'r maes astudiaeth. Bydd y marciau allan o 20 yn ôl y meini prawf canlynol:

Perfformiad - Unawd

Marc	Disgrifiad
19-20	Ardderchog ym mhob ystyr. Perfformiad cywir iawn o ran rhythm a/neu draw gyda thonyddiaeth sicr, ac argyhoeddiad ardderchog o fewn y dehongliad. Yn argyhoeddi, yn arddangos rhwyddineb a mynegiant gyda brawddegau ardderchog a lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ddealltwriaeth ardderchog o'r arddull briodol ar gyfer y dehongliad yn ôl gofynion y cyfansoddwr, a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth perthnasol.
17-18	Perfformiad da iawn. Pur anaml y ceir mân wallau rhythm a/neu draw. Tonyddiaeth a rhythm sicr gydag argyhoeddiad wrth ddehongli. Yn cyfathrebu'n dda wrth liwio a brawddegau. Mae'r perfformiad yn dangos bod yr ymgeisydd yn deall arddull y cyfansoddwr a'r cysylltiadau rhwng y darn a'r maes astudiaeth perthnasol.
15-16	Perfformiad da. Weithiau ceir mân wallau rhythm a/neu draw. Ar y cyfan mae'r donyddiaeth a'r rhythm yn sicr gydag ychydig o lwyddiant wrth fynegi a dehongli. Yn cyfathrebu'n eitha da wrth liwio a brawddegau. Dengys y perfformiad fod yr ymgeisydd yn deall nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth perthnasol.
12-14	Perfformiad rhesymol. Ceir mân wallau rhythm a/neu draw. Gweddol sicr o ran traw a rhythm gyda rhywfaint o lwyddiant wrth fynegi. Perfformiad sy'n llifo'n dda ar y cyfan gydag ymgais onest at frawddegau a lliwio. Dengys y perfformiad fod yr ymgeisydd yn weddol gyfarwydd â nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth perthnasol.
9-11	Perfformiad boddhaol. Mae rhai gwallau rhythm a/neu draw yn amlwg. Canfyddir peth rhwyddineb ac ychydig o frawddegau a lliwio o fewn dehongliad cyfyngedig. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ddealltwriaeth foddhaol o nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth perthnasol.
7-8	Perfformiad cymedrol. Mae gwallau traw a/neu rythm yn bresennol. Canfyddir peth rhwyddineb a rhywfaint o frawddegau a lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ychydig o ddealltwriaeth o nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth perthnasol.
5-6	Perfformiad sylfaenol. Mae gwallau traw a rhythm yn amlwg iawn. Y gerddoriaeth yn llifo ambell waith a rhywfaint o dystiolaeth o frawddegau a lliwio. Yma a thraw dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ychydig wybodaeth am nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth priodol.
3-4	Perfformiad sylfaenol iawn. Mae llawer o wallau traw a rhythm yn amlwg. Cyfyngedig yw'r llif, y brawddegau a'r lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd wybodaeth sylfaenol am nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth priodol.
0-2	Perfformiad cyfyngedig iawn. Anaml iawn mae'r traw a'r rhythm yn gywir. Cyfyngedig iawn yw'r llif, y brawddegau a'r lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd wybodaeth sylfaenol iawn am nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth priodol.

Bydd y marc am safon y perfformiad yna'n cael ei luosi gan un o'r rhifau canlynol yn ôl graddfa anhawster y gerddoriaeth yn y grid a welir isod:

2	Darn gweddol syml ei safon mewn cywair hawdd, yn arddangos rhythmau syml ac ystod traw gyfyngedig. Bydd y disgwyliadau oddi wrth y perfformiwr yn rhai cymedrol.
2.5	Darn cymedrol ei safon yn gofyn am sgiliau technegol digonol gan y perfformiwr ac ychydig o ddeheurwydd ymarferol neu leisiol. Bydd y rhythmau a'r traw yn fwy cymhleth.
3	Darn mwy heriol ei safon yn arddangos rhythmau mwy cymhleth a gofynion technegol sydd ag amrywiaeth ehangach o ddeunydd thematig yn perthyn iddo. Bydd y darn a ddewisir yn rhoi cyfle am fwy o bwyslais ar ddehongli.

2. Canu neu chwarae mewn ensemble

Bydd yr asesiad ar gyfer ensemble yn cynnwys marc am gywirdeb a rheolaeth dechnegol ar y gerddoriaeth a marc ar gyfer technegau chwarae mewn ensemble.

Bydd y marciau allan o 20 yn ôl y graddau y bydd yr ymgeisydd yn arddangos cywirdeb a rheolaeth. Bydd y marciau allan o 20 yn ôl y graddau y bydd yr ymgeisydd yn arddangos ymwybyddiaeth o, ac empathi â rhannau eraill yn yr ensemble. Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu gweithredu:

Perfformiad – Ensemble

Marc	Disgrifiad
19-20	Ardderchog ym mhob ystyr. Perfformiad cywir iawn o ran rhythm a/neu draw gyda thonyddiaeth sicr ac argyhoeddiad ardderchog o fewn y dehongliad. Yn argyhoeddi, yn arddangos rhwyddineb a mynegiant gyda brawddeg ardderchog a lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ddealltwriaeth ardderchog o'r arddull briodol ar gyfer dehongli'r darn yn ôl gofynion y cyfansoddwr, a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad â'r maes astudiaeth perthnasol. Yn dangos ymwybyddiaeth iawn ac empathi llwyr ag eraill yn yr ensemble.
17-18	Perfformiad da iawn. Pur anaml y ceir mân wallau rhythm a/neu draw. Tonyddiaeth a rhythm sicr gydag argyhoeddiad wrth ddehongli. Yn cyfathrebu'n dda wrth liwio a brawddeg. Mae'r perfformiad yn dangos bod yr ymgeisydd yn deall arddull y cyfansoddwr a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad â'r maes astudiaeth perthnasol. Yn dangos llawer o ymwybyddiaeth ac empathi ag eraill yn yr ensemble.
15-16	Perfformiad da. Weithiau ceir mân wallau rhythm a/neu draw. Ar y cyfan mae'r donyddiaeth a'r rhythm yn sicr gydag ychydig o lwyddiant wrth fynegi a dehongli. Yn cyfathrebu'n eithaf da wrth liwio a brawddeg. Dengys y perfformiad fod yr ymgeisydd yn deall nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad â'r maes astudiaeth perthnasol. Yn dangos ymwybyddiaeth ac empathi ag eraill yn yr ensemble.
12-14	Perfformiad rhesymol. Ceir mân wallau rhythm a/neu draw. Gweddol sicr o ran traw a rhythm gyda rhywfaint o lwyddiant wrth fynegi. Perfformiad sy'n llifo'n eitha da gydag ymgais onest at frawddeg a lliwio. Dengys y perfformiad fod yr ymgeisydd yn weddol gyfarwydd â nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad â'r maes astudiaeth perthnasol. Yn dangos peth ymwybyddiaeth ac empathi ag eraill yn yr ensemble.
9-11	Perfformiad boddhaol. Mae rhai gwallau rhythm a/neu draw yn amlwg. Canfyddir peth rhwyddineb ac ychydig o frawddeg a lliwio o fewn dehongliad cyfyngedig. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ddealltwriaeth foddhaol o nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad â'r maes astudiaeth perthnasol. Yn dangos ychydig o ymwybyddiaeth ac empathi ag eraill yn yr ensemble.
7-8	Perfformiad cymedrol. Mae gwallau traw a/neu rythm yn amlwg. Canfyddir peth rhwyddineb a rhywfaint o frawddeg a lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ychydig o ddealltwriaeth o nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad â'r maes astudiaeth perthnasol. Yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o eraill yn yr ensemble.
5-6	Perfformiad sylfaenol. Mae gwallau traw a rhythm yn amlwg iawn. Y gerddoriaeth yn llifo ambell waith ac ychydig dystiolaeth o frawddeg a lliwio. Yma a thraw dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd ychydig wybodaeth am nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth priodol. Prin yn ymwybodol o eraill yn yr ensemble.
3-4	Perfformiad sylfaenol iawn. Mae llawer o wallau traw a rhythm yn amlwg. Cyfyngedig yw'r llif, y brawddegau a'r lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd rywfaint o wybodaeth sylfaenol am nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth priodol. Prin yn ymwybodol o eraill yn yr ensemble.
0-2	Perfformiad cyfyngedig iawn. Anaml iawn mae'r traw a'r rhythm yn gywir. Cyfyngedig iawn yw'r llif, y brawddegau a'r lliwio. Dengys y perfformiad fod gan yr ymgeisydd wybodaeth sylfaenol iawn am nodweddion y darn a'r cysylltiadau rhwng y perfformiad a'r maes astudiaeth priodol. Prin iawn yn ymwybodol o eraill yn yr ensemble.

Bydd y marc am gywirdeb a rheolaeth yna'n cael ei luosi gan un o'r rhifau canlynol yn ôl graddfa anhawster y gerddoriaeth yn y grid a welir isod:

2	Darn gweddol syml ei safon mewn cywair hawdd, yn arddangos rhythmau syml ac ystod traw gyfyngedig. Bydd y disgwyliadau oddi wrth y perfformiwr yn rhai cymedrol.
2.5	Darn cymedrol ei safon yn gofyn am sgiliau technegol digonol gan y perfformiwr ac ychydig o ddeheurwydd ymarferol neu leisiol. Bydd y rhythmau a'r traw yn fwy cymhleth.
3	Darn mwy heriol ei safon yn arddangos rhythmau mwy cymhleth a gofynion technegol sydd ag amrywiaeth ehangach o ddeunydd thematig yn perthyn iddo. Bydd y darn a ddewisir yn rhoi cyfle am fwy o bwyslais ar ddehongli.

Meini prawf ar gyfer offerynnau arbennig

Yn ychwanegol at y meini prawf cyffredinol ar gyfer perfformio, dylid ystyried y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag offerynnau arbennig.

1. Llais

Tonyddiaeth sicr
Glendid ynganiad a chynaniad
Rheolaeth effeithiol ar yr anadlu
Ansawdd y donyddiaeth
Ymdaflriad lleisiol
Dehongliad

2. Llinynnau

(a) *Â'r Bwa*

Tonyddiaeth sicr
Rheolaeth effeithiol o'r bwa
Cydsymud llaw dde/llaw chwith
Cywirdeb byseddu a safle'r llaw chwith
Dehurwydd byseddu
Ansawdd tonyddiaeth
Y defnydd o vibrato, pizzicato
Dehongliad

(b) *Wedi'u tynnu â'r bys e.e. gitâr, telyn*

Tonyddiaeth sicr
Cydsymud llaw dde/llaw chwith
Cywirdeb byseddu a defnydd priodol o safleoedd
Dehurwydd byseddu
Ansawdd tonyddiaeth
Technegau tynnu â'r bys priodol
Dehongliad
Telyn - defnydd o glissando a rheolaeth ar y pedalu

3. Chwythbren

Tonyddiaeth sicr
Rheolaeth effeithiol ar yr anadlu
Dehurwydd byseddu
Ansawdd tonyddiaeth
Defnyddio technegau e.e. glissando, tafodi, tafodi dwbl, cryndafodi, llithriad
Dehongliad

4. **Pres**

Tonyddiaeth sicr
 Rheolaeth effeithiol ar yr anadlu
 Ystwythder gwefusau
 Defnyddio technegau e.e tafodi, llithriad, glissando
 Defnyddio mudyddion
 Ansawdd tonyddiaeth
 Dehongliad

5. **Offer taro**

(a) *Drymiau*
 Cydsymud
 Cysondeb rhythmig
 Dynameg
 Techneg ffyn e.e rhugliad

(b) *Cerddorfaol*
 Cydsymud
 Tiwnio
 Dynameg
 Techneg ffyn

6. (a) **Piano**

Cydsymud llaw dde/llaw chwith
 Deheurwydd byseddu
 Techneg pedalu
 Dehongliad
 Ystod technegau

(b) **Allweddell Electronig/Organ**

Defnyddio amrywiaeth o leisiau/ansawdd/stopiau
 Rheolaeth ar rythmau
 Dewis cordiau
 Techneg pedal a chydsymud seinglawr a phedal (lle bo'n briodol)

7. **DJ-io**

Defnyddio amrywiol dechnegau e.e. sgriffio, tawelu, adseinio, ac ati.
 Dehongliad
 Rheolaeth dros y rhythmau, gan gynnwys trawsacennu
 Defnyddio ffynonellau seiniau dyfeisgar
 Defnyddio adrannau gwrthgyferbyniol

8. **Rapio/MC-io**

Ynganiad clir
 Rheolaeth effeithiol ar yr anadlu
 Amrywio ansawdd tonyddol a thrawsgyweirio
 Ymdaflriad lleisiol
 Dehongliad
 Cyfuniad o sgiliau lleisiol technegol a dwyster rhythmig

9. Curo Curiad

Defnyddio'r llais i greu amrywiaeth o liw seinyddol
Rheolaeth dros y curiad a'r rhythm
Defnyddio seiniau dyfeisgar
Defnyddio adrannau gwrthgyferbyniol
Dehongliad

10. Creu dilyniant (*sequencing*)

Gall yr ymgeisydd fewnbynnu data (heb fod yn fwy na dwy ran) ar ddilyniannwr (*sequencer*) neu recordydd aml-drac cyn yr arholiad. Rhaid i'r ymgeisydd berfformio rhan annibynnol mewn amseriad real ar gyfer yr asesiad.

Defnyddio effeithiau, megis panio, adseinedd, ataliad, ac ati.
Cydbwysedd da
Ystod ddynameg addas
Dehongliad

Safoni Uned 1 yn fewnol

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod traws-safoni gofalus yn digwydd pan fydd mwy nag un athro/athrawes yn gyfrifol am farcio'r perfformiadau. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd er mwyn sicrhau unfurfaeth o ran y safonau o fewn canolfan.

Dilysrwydd yr Aseidiadau Dan Reolaeth

Mae'n ofynnol i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith a aseswyd ac a gwblhawyd o dan yr amodau penodol. Mae copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o glawr blaen gwaith pob ymgeisydd ar gael ar y wefan. Mae'n bwysig nodi ei fod yn ofynnol i **bob** ymgeisydd lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai hynny y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a anfonwyd at y safonwr.

Safoni Uned 1 yn allanol

Darperir safonwyr i asesu marciau'r athrawon gan CBAC. Hysbysir canolfannau am ddyddiad yr arholiad yn yr Amserlen Arholiadau a gyhoeddir, a bydd manylion am y safonwr ac ati yn cael eu hanfon yn nhymor y gwanwyn cyn yr achrediad.

Mae *Llawlyfr Asesu Mewnol* CBAC yn rhoi cyfarwyddiadau am ddethol a danfon samplau o waith at y safonwr.

O ganlyniad i'r safoni, gall marciau'r ymgeiswyr gael eu haddasu i ddod â marciau'r ganolfan yn unol â'r safon genedlaethol.

Cyflwyno Gwaith Uned 1

Bydd sampl o'r gwaith yn cael ei safoni'n allanol gan safonwr a benodwyd gan CBAC a fydd yn ymweld â'r ganolfan yn gynnar yn nhymor y gwanwyn.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr y sampl ddarparu llungopiâu o'r gerddoriaeth/taflenni arweiniol a berfformio y ystod cyfnod yr asesiad. Mae llungopio cerddoriaeth at y pwrpas hwn yn gyfreithiol o dan faner cytundeb MPA a CGC.

Caiff adroddiad ei baratoi gan CBAC ar gyfer pob canolfan, gan ganolbwyntio ar weinyddiaeth yr arholiad, y cynnwys cerddorol a safonau cyffredinol y perfformiadau.

5.4 Uned 2: Cyfansoddi

Mae'r dasg asesiad dan reolaeth yn werth 30% o'r holl farciau sydd ar gael ar gyfer y fanyleb hon.

Mae'r gydran hon yn asesu AA2. Creu a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth dechnegol a threfnus.

GOSOD Y DASG

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gwblhau dau ddarn gwrthgyferbyniol sy'n para am o leiaf 5 munud. Dylai hyn ddatblygu'n naturiol drwy addysgu cynnwys y pwnc. Mae'n rhaid i'r ddau gyfansoddiad fod yn seiliedig ar Faes Astudiaeth gwahanol yn Uned 3.

GWNEUD Y DASG

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r log cyfansoddi UNED 2C yn ystod y broses gyfansoddi.

- **Rheoli dilystrwydd**
Gall ymgeiswyr gyflawni gwaith ymchwil a pharatoi ar gyfer eu tasgau cyfansoddi y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond rhaid iddynt ddatgan unrhyw samplau uniongyrchol o gerddoriaeth a ddefnyddiwyd ar ffurflen UNED 2C. Dylid nodi'r gwaith ymchwil a gyflawnwyd ar Gwiriad Un a gaiff ei lofnodi a'i ddyddio gan y athro/athrawes.
- **Rheoli adborth**
Rhaid i'r athro/athrawes weld y gwaith sydd ar y gweill, **yn ffurfiol** ar gyfer **pob** cyfansoddiad o leiaf **deirgwaith** a heb fod yn fwy na **phum** gwaith yn ystod y broses. Dylai'r ymgeisydd ddatgan adborth ffurfiol yr athro/athrawes ar Gwiriad Dau a Thri ar ffurflen UNED 2C. Gall athrawon gynnig gwelliannau i'r gwaith fel mireinio'r elfennau cerddorol er enghraifft, ond ni ddylid ysgrifennu nodau a chordiau penodol ar gyfer yr ymgeiswyr heb ei ddatgan ar y log cyfansoddi.
- **Rheoli amser**
Awgrymir cyfnod o tuag un ar bymtheg wythnos hyd at ugain wythnos ar gyfer pob cyfansoddiad. Mae'r ystod amser hon wedi'i llunio i gynnwys yr ymgeiswyr hynny sydd angen amser ychwanegol oherwydd, er enghraifft, anawsterau dysgu.
- **Rheoli cydweithredu**
Gall gwaith yr unigolyn elwa drwy gydweithio ag eraill, er enghraifft cyfansoddi darn ar gyfer band roc, ond rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu ymateb unigol.
- **Rheoli adnoddau**
Argaeledd yr adnoddau yn y ganolfan fydd yn penderfynu'r hyn y gall yr ymgeiswyr ddod o hyd iddynt, a gall gynnwys defnyddio sgôr, llyfrau, recordiadau, meddalwedd a chaledwedd cerddorol ac ati. Rhaid datgan unrhyw samplau anwreiddiol a ddefnyddiwyd gan yr ymgeisydd ar y log cyfansoddi.

MARCIO'R DASG

Gellir diffinio marcio'r dasg fel bod â lefel ganolig o reolaeth.

- Mae athrawon yn marcio'r dasg gan ddefnyddio'r meini prawf marcio sydd ar y dudalen nesaf.
- Mae'r corff dyfarnu yn safoni'r marciau yn allanol gan ddefnyddio sampl yn ôl trefn restrol sy'n gyson â gofynion y Cod Ymarfer.

Cyfarwyddiadau i athrawon ar asesiad mewnol Uned 2

Caiff pob tasg gyfansoddi ei marcio allan o 40, gan roi cyfanswm o 80 o farciau ar gyfer Uned 2. Aseir y gwaith gan yr athro/athrawes a'i safoni'n allanol.

Dylid sylwi ar y meini prawf canlynol:

Marc	Disgrifiad
36-40	Yn dangos arddull, cymeriad ac undod ardderchog i raddau helaeth iawn. Yn arddangos rheolaeth llwyddiannus iawn a disgyblaeth gytbwys dda iawn ar adnoddau ac elfennau. Mae technoleg lle bo'n addas, yn cael ei defnyddio'n llwyddiannus iawn. Bydd y cyfansoddiad yn defnyddio amrywiaeth drawiadol o elfennau a dyfeisiau cerddorol er mwyn sicrhau lliw a naws wrthgyferbyniol. Darn wedi'i strwythuro'n dda iawn gan ddangos datblygiad aeddfed o'r syniadau cychwynnol. Canlyniad llwyddiannus iawn i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.
31-35	Yn dangos arddull, cymeriad ac undod da iawn i raddau helaeth. Yn arddangos rheolaeth llwyddiannus a disgyblaeth gytbwys dda ar adnoddau ac elfennau. Mae technoleg lle bo'n addas, yn cael ei defnyddio'n llwyddiannus. Bydd y cyfansoddiad yn defnyddio amrywiaeth dda o elfennau a dyfeisiau cerddorol er mwyn sicrhau lliw a naws wrthgyferbyniol. Darn wedi'i strwythuro'n dda gan ddangos datblygiad creadigol o'r syniadau cychwynnol. Canlyniad llwyddiannus iawn i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.
26-30	Yn dangos arddull, cymeriad ac undod da i raddau helaeth. Yn arddangos rheolaeth llwyddiannus a disgyblaeth gytbwys ar adnoddau ac elfennau. Mae technoleg lle bo'n addas, yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Bydd y cyfansoddiad yn defnyddio amrywiaeth o elfennau a dyfeisiau cerddorol er mwyn sicrhau lliw a naws wrthgyferbyniol. Darn wedi'i strwythuro'n dda gan ddangos datblygiad o'r syniadau cychwynnol. Canlyniad cymeradwy i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.
21-25	Yn dangos arddull, cymeriad ac undod. Yn arddangos disgyblaeth gytbwys ar adnoddau ac elfennau. Mae technoleg lle bo'n addas, yn cael ei defnyddio. Bydd y cyfansoddiad yn defnyddio amrywiaeth resymol o elfennau a dyfeisiau cerddorol er mwyn sicrhau lliw a naws wrthgyferbyniol. Darn wedi'i strwythuro'n dda gan ddangos rhyw ddatblygiad o'r syniadau cychwynnol. Canlyniad boddhaol i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.
16-20	Yn dangos peth arddull, cymeriad ac undod. Yn arddangos peth disgyblaeth gytbwys ar adnoddau ac elfennau. Mae technoleg lle bo'n addas, yn cael ei defnyddio. Bydd y cyfansoddiad yn defnyddio amrywiaeth ddigonol o elfennau a dyfeisiau cerddorol. Bydd tystiolaeth o strwythuro a datblygiad o'r syniadau cychwynnol. Canlyniad gweddol boddhaol i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.
11-15	Yn dangos gafael elfennol ar arddull, cymeriad ac undod. Yn arddangos dealltwriaeth gymedrol ar adnoddau ac elfennau. Mae technoleg lle bo'n addas, i'w chanfod. Bydd y cyfansoddiad yn defnyddio peth amrywiaeth o elfennau a dyfeisiau cerddorol. Bydd tystiolaeth o strwythuro a datblygiad sylfaenol o'r syniadau cychwynnol. Canlyniad cymedrol i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.
6-10	Yn dangos gafael elfennol iawn ar arddull, cymeriad ac undod. Yn arddangos dealltwriaeth sylfaenol ar adnoddau ac elfennau. Bydd technoleg lle bo'n addas yn gyfyngedig. Bydd y cyfansoddiad yn defnyddio rhai elfennau a dyfeisiau cerddorol. Darn a fydd wedi'i strwythuro'n drefnus ond prin bydd datblygiad o'r syniadau cychwynnol. Canlyniad cymedrol iawn i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.
0-5	Yn dangos gafael elfennol iawn ar arddull, cymeriad ac undod. Yn arddangos dealltwriaeth sylfaenol ar adnoddau ac elfennau. Bydd technoleg lle bo'n addas yn gyfyngedig iawn. Mae tystiolaeth gyfyngedig o strwythuro a datblygiad o'r syniadau. Canlyniad cyfyngedig i'r dasg, yng nghyd-destun y Maes Astudiaeth penodol.

Dylai athrawon gofnodi'r marc ar gyfer pob tasg gyfansoddi a chyfanswm y marciau am y ddwy dasg ar ffurflen Uned 2B.

Safoni Uned 2 yn fewnol

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod traws-safoni gofalus yn digwydd pan fydd mwy nag un athro/athrawes yn gyfrifol am farcio'r cyfansoddiadau. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd er mwyn sicrhau unffurfiaeth o ran y safonau o fewn canolfan.

Dilysu'r Asesiadau Dan Reolaeth

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lofnodi mai eu gwaith nhw yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae'n ofynnol i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith a aseswyd ac a gwblhawyd o dan yr amodau penodol.

Mae copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o glawr blaen gwaith pob ymgeisydd ar gael ar y wefan. Dylai athrawon ddilysu'r gwaith trwy lofnodi'r un ffurflen. Mae'n bwysig nodi ei fod yn ofynnol i **bob** ymgeisydd lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai hynny y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a anfonwyd at y safonwr. Nid oes angen dweud wrth CBAC am ymgeisydd sy'n ymddwyn yn annheg cyn llofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin â'r mater yn unol â dulliau gweithredu mewnol y ganolfan.

Cyn dechrau ar unrhyw waith tuag at yr Asesiad Dan Reolaeth, dylid tynnu sylw ymgeiswyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC. Mae hwn ar gael ar wefan y CGC (www.icq.org.uk) ac mae wedi'i gynnwys yn *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs/Portffolios*. Mae'r dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk). Rhoddir arweiniad mwy manwl ynghylch atal llên-ladrad yn *Plagiarism in Examinations; Guidance for Teachers/Assessors*, sydd hefyd ar gael ar wefan y CGC.

Mae *Llawlyfr Asesu Mewnol CBAC* yn rhoi cyfarwyddiadau am weinyddu gwaith a asesir yn fewnol.

Safoni Asesiad dan Reolaeth yn Allanol

Bydd CBAC yn archwilio'r drefn Asesu dan Reolaeth trwy safoni asesiad yr athrawon. Hysbysir canolfannau o ddyddiad cyflwyno tasgau asesiad dan reolaeth yn yr Amserlen Arholiadau gyhoeddedig a dosberthir enw eu safonwr yn nhymor y gwanwyn gan yr achredu.

O ganlyniad i'r safoni, gall marciau'r ymgeiswyr gael eu haddasu i ddod â marciau'r ganolfan yn unol â'r safon genedlaethol. Os oes angen, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith. Os oes angen gwneud hynny, gellir gofyn am waith yr ymgeiswyr i gyd i'w safoni'n allanol a hynny heb ystyried niferoedd sy'n cofrestru. Yn yr achos hwn, anfonir yr holl waith at y safonwr.

Cyflwyno Gwaith Uned 2

Rhaid i ganolfannau anfon yr asesiad dan reolaeth, ynghyd â'r sgorau neu daflenni arweiniol neu ddisgrifiad o'r broses gyfansoddi, recordiad ar dap, DM, CD, fideo neu DVD (sicrhewch os gwelwch yn dda bod pob DVD a CD wedi'u haddasu ar gyfer eu chwarae ar unrhyw beiriant), ffurflen UNED 2B wedi'i llenwi gan yr athro/athrawes a ffurflen UNED 2C wedi'i llenwi gan yr ymgeisydd ar gyfer pob cyfansoddiad.

Dychwelyd Gwaith Uned 2

Caiff gwaith ei anfon yn ôl at ganolfannau gan y safonwr ar ddiwedd y broses safoni. Anfonir sampl o'r gwaith at y Prif Safonwr a hwyrach gall y gwaith gael ei gadw a'i ddefnyddio mewn cyfarfod Dyfarnu, HMS neu ar gyfer deunydd enghreifftiol.

Cadw Gwaith Uned 2

Mae angen i ganolfannau ddal eu gafael ar yr Asesiadau Dan Reolaeth hyd at ddiwedd mis Tachwedd yn dilyn Arholiad yr Haf.

6

DISGRIFIADAU O'R GRADDAU

Darperir disgrifiadau o'r graddau er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad sy'n debygol o fod wedi'u dangos gan ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a bennir gan y fanyleb; ni fwriedir iddynt ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Yn ymarferol, bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu ar faint llwyddiant yr ymgeisydd i gwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar berfformiad ymgeisydd yn yr asesiad gael eu cydbwysu gan berfformiadau gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae'r ymgeiswyr yn archwilio i bosibiliadau mynegiannol yr adnoddau a'r confensiynau cerddorol a ddefnyddid mewn genres, arddulliau a thraddodiadau penodol. Maent yn perfformio/sylweddu gyda dealltwriaeth o'r arddull, gyda defnydd o'r adnoddau a ddefnyddiwyd gan raddio'r cyflymder, y dymameg a'r cydbwysedd lle bo'n addas.

Maent yn cyfansoddi cerddoriaeth sy'n arddangos datblygiad trefnus a dychmygus o syniadau cerddorol a chysondeb arddull, ac yn archwilio i bosibiliadau'r adeileddau a'r adnoddau cerddorol.

Maent yn gwneud penderfyniadau beirniadol ynglŷn â'u gwaith eu hunain ac am waith eraill gan ddefnyddio geirfa gerddorol gywir ac eang.

Gradd C

Mae'r ymgeiswyr yn perfformio/sylweddu cerddoriaeth â rheolaeth, gan ddefnyddio dymameg a brawddegau mewn modd sy'n addas i arddull a naws y gerddoriaeth.

Maent yn cyfansoddi cerddoriaeth sy'n arddangos y gallu i ddatblygu syniadau cerddorol, i ddefnyddio confensiynau, ac yn archwilio i bosibiliadau'r adeileddau a'r adnoddau cerddorol.

Maent yn gwneud penderfyniadau beirniadol ynglŷn â'u gwaith eu hunain ac am waith eraill gan ddefnyddio geirfa gerddorol.

Gradd F

Mae'r ymgeiswyr yn perfformio/sylweddu cerddoriaeth â pheth rhwyddineb a rheolaeth ar yr adnoddau a ddefnyddiwyd.

Maent yn cyfansoddi cerddoriaeth sy'n arddangos peth gallu i drefnu syniadau cerddorol gan ddefnyddio adnoddau addas mewn perthynas â briff.

Maent yn disgrifio nodweddion cerddorol gan ddefnyddio iaith gerddorol syml, yn mireinio'u gwaith gan gynnig rhyw eglurhad ar y farn a fynegwyd.

7

Y CWRICWLWM EHANGACH**Sgiliau Allweddol**

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio TGAU Cerddoriaeth a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefelau 1 a 2:

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Cerddoriaeth', sydd ar gael ar wefan CBAC.

Cyfleoedd i ddefnyddio technoleg

Mae nifer o gyfleoedd i ddefnyddio TGCh yn y fanyleb hon.

Gall ymgeiswyr ddefnyddio prosesu geiriau i gynhyrchu'r log cyfansoddi. Ar gyfer cyfansoddiadau, dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio amrywiaeth eang o'r meddalwedd technoleg sydd ar gael. Fodd bynnag, fel y nodwyd gynt, dylai ymgeiswyr osgoi defnyddio technoleg sy'n dibynnu ar seiniau wedi'u samplu.

Ar gyfer Uned 1 Perfformio ac Uned 3 Gwrando a Gwerthuso, dylid annog ymgeiswyr i ymchwilio gan ddefnyddio CD Roms a'r rhyngwyd.

Mae nifer o wefannau defnyddiol wedi'u rhestru yn y Canllawiau i Athrawon, a gellir defnyddio'r rhain i gasglu gwybodaeth.

Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Mae'r cwrs TGAU Cerdd hwn, drwy ei natur, yn un sydd yn gofyn i ymgeiswyr archwilio i ystod o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r grid isod yn awgrymu enghreifftiau o gyfleoedd datblygu posib.

Mater	Unedau	Dulliau
Ysbrydol	Unedau 1, 2, 3	<ul style="list-style-type: none"> • annog ymgeiswyr i archwilio ac i ddatblygu'r hyn sy'n creu brwdfrydedd ymysg ei gilydd ac ymysg eraill; • annog ymgeiswyr i fyfyrion ac i ddysgu wrth y myfyrdod hwnnw; • cynnig y cyfle i ymgeiswyr ddeall teimladau ac emosiynau dynol; • datblygu amgylchiadau neu ethos y gall yr holl ymgeiswyr dyfu a llwyddo ynddynt, gan barchu eraill ac yna ennill parch eu hunain; • cydnabod gwahaniaethau a pharchu unplygrwydd unigolion.
Moesol/ Moesegol	Unedau 1, 2, 3	<ul style="list-style-type: none"> • annog ymgeiswyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithrediadau: er enghraifft, parchu eiddo, gofal dros yr amgylchedd, a datblygu codau ymddygiad.
Cymdeithasol	Unedau 1, 3	<ul style="list-style-type: none"> • annog ymgeiswyr i gydweithio ag eraill; • annog ymgeiswyr i gydnabod ac i barchu gwahaniaethau a chyffelybiaethau cymdeithasol; • cynnig profiadau cadarnhaol trwy waith grŵp, cymryd rhan mewn cyngherddau fel perfformwyr ac fel aelodau o'r gynulleidfa, ac ati; • cynorthwyo ymgeiswyr i ddatrys tensiynau rhwng eu dyheadau nhw eu hunain ac eiddo rhai eraill; • cynnig cyfleoedd i fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd; • cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ymgymryd ag arweinyddiaeth a chyfrifoldeb.
Diwylliannol	Unedau 1, 2, 3	<ul style="list-style-type: none"> • adnabod a meithrin talentau a doniau arbennig; • cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr gymryd rhan mewn cyngherddau ac annog ymgeiswyr i fyfyrion ar eu harwyddocâd; • datblygu partneriaeth ag asiantaethau allanol ac unigolion er mwyn ymestyn ymwybyddiaeth ymgeiswyr o ddiwylliant, er enghraifft gweithdai cerddoriaeth.

Dinasyddiaeth

Wrth astudio TGAU Cerddoriaeth, dylai ymgeiswyr ddatblygu sgiliau arbennig sydd yn uniongyrchol berthnasol i'w datblygiad dinasyddol. Bydd rhain yn cynnwys:

- cynnig cyfleoedd i chwarae, gwerthfawrogi a deall cerddoriaeth o amryw gyfnodau a lleoedd;
- datblygu ystyr personol, ymchwilio a myfyrio dros deimladau a syniadau a fynegir drwy gyfrwng cerddoriaeth;
- cynorthwyo ymgeiswyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu penderfyniadau nhw eu hunain a gwerthfawrogi eu gwaith;
- rhannu creu cerddoriaeth ag eraill gyda sensitifrwydd wrth drafod safbwyntiau, cryfderau a gofynion pobl eraill;
- datblygu ymdeimlad cyfunol o gyflawni a gosod lefelau uchel o ddisgwyliadau;
- adnabod yr angen am rannau gwahanol o fewn perfformiad grŵp;
- nodi sut mae cerddoriaeth yn adlewyrchu'r ffordd mae pobl yn teimlo, yn meddwl ac yn gweithredu;
- cynyddu cymhelliad drwy sicrhau llwyddiant mewn cyfrwng sydd heb eiriau;
- gwerthfawrogi perthynas weithredol rhwng oedolion a phobl ifanc.

Materion Amgylcheddol

Rhodddwyd sylw dyledus i Benderfyniad 1988 Cyngor y Gymuned Ewropeaidd ac adroddiad 'Dyletswydd Amgylcheddol: Agenda am Addysg Bellach ac Uwch' 1993 wrth baratoi'r fanyleb hon a deunyddiau enghreifftiol cysylltiol ac arweiniol.

Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

Dylai athrawon ac ymgeiswyr bob amser ystyried materion Iechyd a Diogelwch sy'n deillio o waith a gyflawnwyd y tu allan a thu mewn i'r ysgol. Wrth weithio gydag offer, offerynnau, microffonau, mwyhaduron, gwifrau trydan ac ati, mewn gweithgareddau ymarferol ac mewn amgylcheddau gwahanol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ddieithr, dylai ymgeiswyr ddysgu:

- am beryglon, risgiau a'r rheolaeth dros risg;
- adnabod peryglon, asesu risgiau all ddilyn a chymryd camau i reoli'r risgiau i'w hunain ac i eraill;
- defnyddio gwybodaeth i asesu'r risgiau uniongyrchol a'r risgiau cronnu;
- rheoli eu hamgylchedd er mwyn sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch nhw eu hunain ac eraill;
- egluro'r camau y maent yn eu cymryd i reoli'r risgiau.

Dylid rhoi sylw dyledus hefyd i unrhyw ganllawiau priodol gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Y Dimensiwn Ewropeaidd

Rhodddwyd sylw dyledus i Benderfyniad 1988 Cyngor y Gymuned Ewropeaidd wrth baratoi'r fanyleb hon a deunyddiau enghreifftiol cysylltiol ac arweiniol. Dylid defnyddio enghreifftiau Ewropeaidd lle bo'n addas wrth gyflwyno cynnwys y pwnc.

ATODIAD



TGAU

ASESIAD O GYFANSODDI MEWN CERDDORIAETH
LOG CYFANSODDI'R YMGEISYDD

UNED 2C
4412

Enw'r Ymgeisydd: _____

Rhif yr Ymgeisydd: _____

Enw'r Ganolfan: _____

Rhif yr Ganolfan: _____

Dylech lenwi'r log cyfansoddi hwn a'i gynnwys gyda'ch ffolio.

Teitl Cyfansoddiad 1:

Maes Astudiaeth:

DRAFFT CYNTAF: Syniadau cychwynnol (Ysgrifennwch am sut y gwnaethoch ddechrau eich cyfansoddiad.)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Athro Pwnc: Dyddiad:

AIL DDRAFFT: Estyniad a Datblygiad (Eglurwch sut y gwnaethoch ddatblygu eich syniadau gwreiddiol).

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Athro Pwnc: Dyddiad:

CYFLWYNIAD TERFYNOL: Cyflawniad (Ysgrifennwch am sut y gwnaethoch orffen eich gwaith, gan gynnwys manylion am y meddalwedd, cyfeiliannau awto ac ati a ddefnyddiwyd yn y recordiad terfynol.)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Athro Pwnc: Dyddiad:

Teitl Cyfansoddiad 2:

Maes Astudiaeth:

DRAFFT CYNTAF: Syniadau cychwynnol (Ysgrifennwch am sut y gwnaethoch ddechrau eich cyfansoddiad.)

.....

.....

.....

.....

.....

Athro Pwnc: Dyddiad:

AIL DDRAFFT: Estyniad a Datblygiad (Eglurwch sut y gwnaethoch ddatblygu eich syniadau gwreiddiol).

.....

.....

.....

.....

.....

Athro Pwnc: Dyddiad:

CYFLWYNIAD TERFYNOL: Cyflawniad (Ysgrifennwch am sut y gwnaethoch orffen eich gwaith, gan gynnwys manylion am y meddalwedd, cyfeiliannau awto ac ati a ddefnyddiwyd yn y recordiad terfynol.)

.....

.....

.....

.....

.....

Athro Pwnc: Dyddiad:

Datganiad yr Ymgeisydd

Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodwyd heb gymorth, ar wahân i'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl y fanyleb, fel yr eglurwyd i mi gan yr athro.

Ymgeisydd: Dyddiad: